PUGH, HUGH (1779 - 1809), gweinidog gyda'r Annibynwyr

Enw: Hugh Pugh
Dyddiad geni: 1779
Dyddiad marw: 1809
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: gweinidog gyda'r Annibynwyr
Maes gweithgaredd: Crefydd
Awdur: Richard Griffith Owen

Ganwyd 22 Tachwedd 1779 yn Tynant Bach, Brithdir. Magwyd ef mewn gwell amgylchiadau na'r cyffredin. Nid oedd ei dad yn grefyddwr ond 'roedd ei fam yn aelod yn Rhydymain, ac y mae'n bosibl y cyrchai mor bell â Llanuwchllyn i gymundeb. Symudodd y teulu i'r Perthi Llwydion. Addysgwyd ef yn Nolgellau a High Ercall, Sir Amwythig. Yn 16 oed derbyniwyd ef yn aelod yn y Brithdir gan Dr. George Lewis a dechreuodd bregethu ymhen dwy flynedd. Yn 20 oed aeth i athrofa Wrecsam ac arhosodd yno flwyddyn. Daeth adref i gymryd gofal eglwysi y Brithdir a Rhydymain ac urddwyd ef yn y Brithdir, Hydref 1802. Ehangodd ei faes a dechreuodd bregethu yn Nolgellau a phrynodd hen gapel y Methodistiaid yno at wasanaeth ei enwad. Sefydlodd achos yn Llanelltyd ac âi i'r Ganllwyd a'r Cutiau, Abermaw, Dyffryn, Llwyngwril, Llanegryn, a Thywyn. Ef oedd gweinidog sefydlog cyntaf yr Annibynwyr yn yr ardaloedd o gylch Dolgellau. Cyfrifid ef ymhell uwchlaw ei gyfoeswyr mewn deall a dawn y weinidogaeth. Bu farw 28 Hydref 1809 a chladdwyd ef ym mynwent Dolgellau.

Awdur

Y Parchedig Richard Griffith Owen, (1890 - 1973)

Ffynonellau

Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru, i, 449-52

Y Dysgedydd, 1824, 353, 357

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 440-1

R. T. Jenkins, *Hanes Cynulleidfa Hen Gapel Llanuwchllyn* (1937), 113

Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Hugh Pugh, Brithdir

Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20746795

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu